**EPT-14-01 (min)**

# PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 17 Hydref 2001 |
| Amser: | 2:00 pm hyd 5:00 pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

***Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| David Davies | Mynwy |
| Geraint Davies | Rhondda |
| Sue Essex, Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Martin Evans | Cyfarwyddwr y Grwp Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd |
| Keith Bush | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| Denzil Jones (eitem 2) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| Martin Rolph (eitem 3) | Y Grwp Cyllid |

| | |
|---|---|
| Richard Clarke (eitem 4) | Yr Is-adran Cynllunio Ariannol |
| Ian Thomas (eitem 4) | Yr Is-adran Cynllunio Ariannol |
| ***Yn bresennol:*** | |
| Tom Cassidy (eitem 3) | Prif Weithredwr, Cadw: Henebion Cymru |
| Paul Loveluck (eitem 4) | Prif Weithredwr, Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Malcolm Smith (eitem 4) | Uwch Gyfarwyddwr, Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| ***Ysgrifenyddiaeth:*** | |
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

1. Croesawodd y Cadeirydd aelodau, swyddogion ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod, yn enwedig Eleanor Burnham a oedd wedi ei hethol i'r Pwyllgor yn lle Mick Bates. Cofnododd y Cadeirydd ei werthfawrogiad o gyfraniad Mick i waith y Pwyllgor.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan John Griffiths.

1.2 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau o dan Reol Sefydlog 4.5. Datganodd Geraint Davies ei fod yn aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac yn fferyllydd.

**Y diweddaraf am ymchwiliad Nantygwyddon**

1.3 Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau am y datblygiadau yn Ymchwiliad Nantygwyddon. Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol, roedd yr Ymchwilydd Annibynnol wedi ysgrifennu at nifer o unigolion yr oedd yn bwriadu eu beirniadu yn ei adroddiad i'r Pwyllgor, yn amgáu darnau perthnasol o'r adroddiad drafft ac yn ceisio sylwadau. Erbyn hyn yr oedd wedi derbyn sylwadau gan yr unigolion dan sylw, yn cynnwys cryn lawer o ddeunydd nad oedd wedi ei

gyflwyno i'r Ymchwiliad cynt. Yn y rhan fwyaf o achosion dywedwyd bod y sylwadau hyn yn cael eu gwneud "yn gyfrinachol".

1.4 Er mwyn diogelu uniondeb dulliau gweithredu'r Ymchwiliad, rhaid oedd rhoi ystyriaeth briodol i'r sylwadau hyn. Oherwydd nifer o ystyriaethau ymarferol, yn arbennig swmp y deunydd a'r awydd i godi'r cyfyngiadau "cyfrinachol", nid oedd yn debygol y gellid cyflwyno adroddiad yr Ymchwilydd i'r Pwyllgor ar 31 Hydref.

1.5 Teimlai'r Aelodau yn gryf y dylai unrhyw dystiolaeth newydd gael ei rhyddhau i'r cyhoedd, ac y dylai fod digon o amser ar gael i'w hystyried. Fodd bynnag, cytunwyd, onid oedd yr unigolion hynny yn barod i wneud eu sylwadau 'ar y record', na ellid cymryd eu sylwadau i ystyriaeth, ac na fyddent yn rhwystr rhag cyhoeddi adroddiad yr Ymchwilydd.

1.6 Cytunwyd y byddai adroddiad yr Ymchwilydd yn cael ei gyflwyno bellach yn y cyfarfod ar 12 Rhagfyr. Byddai'r Pwyllgor yn dal i gwrdd ym Mharc Treftadaeth y Rhondda ar 31 Hydref, a byddai'n rhoi adroddiad diweddaru ar Ymchwiliad Nantygwyddon. Fodd bynnag, byddai rhan fwyaf y cyfarfod yn cael ei neilltuo i'w adolygiad polisi o drafnidiaeth gyhoeddus.

**Y diweddaraf am yr adolygiad polisi o drafnidiaeth gyhoeddus**

1.7 Derbyniwyd pum ymateb a deugain i'r ymgynghoriad ynghylch trafnidiaeth gyhoeddus (ac mae rhai i ddilyn), a byddent yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol yn fuan. Roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig ynglyn â'i ymchwiliad trafnidiaeth arfaethedig yn awgrymu, er mwyn osgoi dyblygu, y dylai ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig gymryd adolygiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i ystyriaeth. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd hefyd yn cynnig rhoi tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig.

**Eitem 2: Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd** - EPT-14-01 (p 1)

2.1 Cyflwynodd Sue Essex ei hadroddiad, gan dynnu sylw at ei hymweliad â Sweden, ailagor llwybrau troed ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a'r Seminar Ynni Cynaliadwy a gynhaliwyd yr wythnos flaenorol.

2.2 Ymdriniwyd â'r pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Rheoli gwastraff – Rhannai'r Aelodau siom y Gweinidog fod y ddadl a oedd i fod i gael ei chynnal yn y cyfarfod llawn y diwrnod blaenorol wedi ei gohirio. Roedd yn bwysig i Gymru ddysgu o'r ymarfer gorau a welir yn Sweden ac mewn gwledydd Ewropeaidd eraill. Yn arbennig, teimlai'r Aelodau fod partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a chymunedau yn hanfodol wrth ddatblygu cyfleusterau gwastraff cynaliadwy. Gwahoddwyd y Gweinidog i ystyried effaith y ddeddfwriaeth y mae'r UE ar fin ei

chyflwyno i atal allforio oergelloedd sydd wedi eu hadnewyddu o Aelod Wladwriaethau'r UE. Codai hynny gwestiynau ynglyn â gwaredu oergelloedd o'r fath;

- Gwaredu sgerbydau anifeiliaid – roedd y Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi ystyried yr opsiynau gwaredu oedd ar gael, a defnyddio safleoedd claddu sbwriel yw'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio ar hyn o bryd. Pwysleisiodd yr Aelodau fod angen i wybodaeth fod ar gael yn lleol yn gynnar yn y broses, er mwyn lleddfu pryderon y cyhoedd;

- Datblygu Cynaliadwy – roedd ceisiadau wedi eu cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd i gyllido rhwydweithiau gyda phartneriaid o Aelod Wladwriaethau eraill. Roedd yr Uned Datblygu Cynaliadwy o fewn yr Uned Polisi yn gweithio'n agos gydag Is-adrannau eraill ar draws y Cynulliad Cenedlaethol i hyrwyddo polisïau cynaliadwy, a bu'n edrych ar y trefniadau caffael yn ddiweddar;

- Y rheilffyrdd – bu oedi yn y broses o osod masnachfraint Cymru a'r Gororau ond roedd masnachfreintiau ‘cysgodol’ wedi eu creu ar gyfer Cymru a'r Gororau a Wessex gan y cwmni masnachfraint presennol, ac roedd gan yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol ddisgresiwn i ymestyn y masnachfreintiau presennol hyd at 2006. Amlinellodd y Gweinidog ddatblygiadau gyda Railtrack, a chytunodd i geisio pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol i enwebu cynrychiolydd i fwrdd unrhyw gorff newydd os caiff y diwydiant rheilffyrdd ei ailstrwythuro mewn ffordd a fyddai'n effeithio ar Railtrack, yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol a'r Rheoleiddiwr. Byddai'n rhaid wrth ddeddfwriaeth sylfaenol i wneud hynny;

- Tocynnau gostyngol – yn dilyn y sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau, daethpwyd i'r casgliad mai 2003 fyddai'r dyddiad cynharaf pryd y gellid cyflwyno tocynnau gostyngol i ddynion 60+;

- Llifogydd – roedd awdurdodau lleol yn cyfeirio ymholiadau'r cyhoedd at gontractwyr lleol, er nad ydynt mwyach dan gontract i wneud unrhyw waith ar ran Dwr Cymru, nac yn cael tâl am y gwasanaeth hwn. Cytunodd y Gweinidog i godi'r mater gyda Dwr Cymru ac OFWAT;

- Ansawdd yr Aer – mynegodd yr Aelodau eu siom fod y targedau wedi eu gohirio o 2004 i 2010;

- Y Comisiynydd Plant – yr awdurdodau lleol sy'n ymdrin yn y lle cyntaf â'r pryderon a godwyd gan y Comisiynydd Plant ynglyn â chodi ysgolion ar dir sydd wedi ei lygru.

2.3 Cadarnhaodd y Pwyllgor ei fod yn fodlon â'r rheoliadau drafft ar fapio a fforymau mynediad o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, a gylchredwyd i gael sylwadau arnynt yn ystod y gwyliau.

**Eitem 3: Adolygiad Pum-mlynedd Cadw: cylch gorchwyl drafft** –

EPT-14-01 (p 2)

3.1 Ceisiodd y Gweinidog farn y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl drafft. Byddai'r adolygiad yn un cyfannol ei natur ac yn rhoi sylw i faterion sy'n gyffredin i bortffolio'r Amgylchedd a'r portffolio Diwylliant.

3.2 Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y meysydd isod:

- Adolygiadau cysylltiol – asiantaeth weithredol yw Cadw ac mae'n derbyn cyngor oddi wrth gyrff eraill. Byddid yn cysylltu'r adolygiad hwn â'r adolygiadau sydd ar fin eu cynnal o'r cyrff sy'n cynghori Cadw: Bwrdd Henebion Cymru, Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru a'r Comisiwn ar Henebion yng Nghymru;

- Materion sy'n pontio portffolios – byddai'r adolygiad yn ymdrin â materion sy'n berthnasol i bortffolio'r Amgylchedd a hefyd i'r portffolio Diwylliant, megis y polisïau gwahanol ar godi tâl mynediad i amgueddfeydd a henebion yng Nghymru. Câi papur yn ymdrin â materion cyffredin ei baratoi ar gyfer Pwyllgor yr Amgylchedd a'r Pwyllgor Diwylliant;

- Rhestru adeiladau hanesyddol – y disgwyl oedd y byddai'r pwnc hwn yn denu llawer ohebiaeth.

3.3 Roedd yna gytundeb bras ynglyn â'r cylch gorchwyl i'r adolygiad. Rhagwelwyd y câi'r adroddiad interim drafft ei gyflwyno i'r Pwyllgor yng ngwanwyn 2002, gyda'r adroddiad terfynol drafft i ddilyn yn yr haf.

**Eitem 4: Adolygiad Pum-mlynedd o Gyngor Cefn Gwlad Cymru: adroddiad terfynol drafft** – EPT-14-01 (p 3)

1. Disgrifiodd Richard Clarke broses yr adolygiad, a chrynhodd Ian Thomas yr argymhellion drafft allweddol o'r adroddiad, wedi'u grwpio o dan y penawdau canlynol: cyfeiriad cyffredinol Cyngor Cefn Gwlad Cymru; cysylltiadau o fewn y Cyngor Cefn Gwlad ac â chyrff allanol; y berthynas rhwng y Cyngor Cefn Gwlad a'r Cynulliad Cenedlaethol a'r goblygiadau i'r Cyngor Cefn Gwlad yn y tymor hwy. Dyma gyfle'r Pwyllgor i wneud sylwadau ar yr adroddiad terfynol drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Gweinidogion.

4.2 Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau ar yr argymhellion o dan y pedwar prif bennawd, sef:

- Cyfeiriad Cyffredinol y Cyngor Cefn Gwlad – dylai'r weledigaeth i'r Cyngor Cefn Gwlad gyd-fynd â gweledigaeth y Cynulliad Cenedlaethol, yn enwedig o ran datblygu cynaliadwy;

- Cysylltiadau o fewn y Cyngor Cefn Gwlad ac yn allanol – cytunai'r Aelodau fod angen rhoi sylw i gysylltiadau mewnol, ac y dylid datblygu ethos rheoli mwy cynhwysol. Dylai'r Cyngor Cefn Gwlad dynnu sylw at ei waith ymysg cymunedau lleol, a dylai hefyd fod yn atebol iddynt (argymhelliad 28);

- Perthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol – roedd angen i'r Cyngor Cefn Gwlad fod yn fwy rhagweithiol yn helpu i ddatblygu polisi, heb danseilio ei statws fel corff cynghori statudol annibynnol (argymhelliad 37). Er bod meincnodi gyda chyrff eraill cyffelyb yn y DU yn bwysig, ni ddylai targedau perfformiad cyffredin fod yn ofyniad (argymhelliad 9). Teimlai'r Aelodau yn gryf y dylai pob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad fod â'r un telerau ac amodau i staff, yn enwedig o ran polisïau cyfle cyfartal (argymhelliad 41).

- Y goblygiadau yn y tymor hwy – roedd y Pwyllgor wedi cytuno cynt y dylai'r argymhellion gael eu hystyried ochr yn ochr â'r canfyddiadau sy'n deillio o adolygiadau cyffelyb o gyrff eraill perthnasol, a chroesawai ymrwymiad y Gweinidog i roi ystyriaeth ehangach i'r angen yn y tymor canolig i hir am ryw fath o Asiantaeth Amgylcheddol/Cefn Gwlad i Gymru. Roedd copi o'r adroddiad cam 1 ar yr adolygiad o Asiantaeth yr Amgylchedd, a argymhellai y dylid cadw at un corff i Gymru a Lloegr, wedi ei gylchredeg yn ystod y gwyliau. Byddai'r Pwyllgor yn ysgrifennu at y Gweinidog gyda sylwadau ar yr adroddiad cam 1 yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol ar yr adolygiad o'r Cyngor Cefn Gwlad.

4.2 Cymeradwyodd y Pwyllgor yr argymhellion drafft, yn amodol ar y newid isod:

- bod argymhelliad 9 i gael ei ailddrafftio er mwyn tynnu sylw at yr angen i feincnodi, yn hytrach na gosod targedau perfformiad cyffredin i gyrff cefn gwlad y DU.

4.3 Hysbysodd Paul Loveluck y Pwyllgor y byddai'r adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i Gyngor y Cyngor Cefn Gwlad ar 31 Hydref. Roedd yn hyderus y câi'r argymhellion groeso cyffredinol, ac roedd rhai ohonynt eisoes yn cael eu rhoi ar waith.

**Eitem 5: Blaenraglen Waith: tymor yr Hydref 2001** - EPT-14-01 (p 4)

1. Cytunodd y Pwyllgor ar ei raglen waith am y tymor, yn amodol ar y newidiadau isod yn deillio o'r newidiadau i amserlen Ymchwiliad Nantygwyddon:

- 31 Hydref – agenda 8 Tachwedd i gael ei symud ymlaen. Byddai'r cyfarfod yn dal i gael ei gynnal ym Mharc Treftadaeth y Rhondda;
- 8 Tachwedd – ni fyddai angen cyfarfod ychwanegol mwyach;

- 12 Rhagfyr – cyflwyno adroddiad terfynol Ymchwilydd Nantygwyddon. Byddai trafodaeth y Pwyllgor yn cael ei chynnal bellach yn nhymor y gwanwyn 2002.

5.2 Câi'r eitemau canlynol eu cynnal yn y rhaglen waith ar ddyddiad addas: cyflwyno cyfyngiadau cyflymder 20 mya y tu allan i ysgolion; effaith Rheoliadau'r UE.

**Eitem 6: Cofnodion cyfarfod 11 Gorffennaf** - EPT-13-01 (min)

6.1 Mabwysiadodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf.

**Etholiad i'r Panel Penodiadau Cyhoeddus**

7.1 Etholodd y Pwyllgor Eleanor Burnham i'w banel penodiadau cyhoeddus, yn lle Mick Bates.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

8.1 Byddai cyfarfod nesaf y pwyllgor am 2.00 pm ddydd Mercher 31 Hydref 2001, ym Mharc Treftadaeth y Rhondda, Trehafod.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Hydref 2001**